

**RHEOLIADAU ADDYSG (TREFNIADAU APELAU DERBYN) (CYMRU)  
(CORONAFEIRWS) (DIWYGIO) (DIWYGIO) 2021  
ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT**

**1. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc.**

Mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) (Diwygio) 2021 yn diwygio rhai gofynion gweithdrefnol a chyfansoddiadol a nodir yn Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 sy'n ymwneud â phaneli apelau derbyn ysgolion hyd at 30 Medi 2022. Mae'r Rheoliadau'n sicrhau y gellir cynnal apeliadau derbyn i ysgolion yn 2021 a 2022, er gwaethaf unrhyw anawsterau ymarferol neu fesurau sydd ar waith i gyfyngu ar ledaeniad Coronafeirws.

Ar hyn o bryd, mae hyn yn cynnwys y gofyniad presennol i gynnal asesiadau risg a allai benderfynu na chaniateir i apeliadau ddigwydd ar safleoedd penodol, ac felly yn cyfyngu ar y gallu i bartïon gyfarfod yn gorfforol, a chanllawiau ar hunan-ynysu a allai achosi anawsterau o ran sicrhau digon o aelodau panel ar gyfer gwrandawiadau apêl.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dilyn dwy set o Reoliadau a oedd ar waith rhwng mis Mai 2020 a mis Ionawr 2021, a rhwng mis Ionawr 2021 a mis Medi 2021 a oedd yn yr un modd yn diwygio Rheoliadau Apêl Derbyn i Ysgolion 2005.

Mae awdurdodau derbyn yn cefnogi estyniad i'r gwelliannau dros dro, gan awgrymu bod yr hyblygrwydd a roddir gan y gwelliannau dros dro yn fanteisiol i awdurdodau derbyn, paneli apêl ac apelwyr fel ei gilydd.

Er y bydd Rheoliadau 2021 yn llacio'r gofynion presennol ymhellach, byddant yn cynnal rhwymedigaethau ynghylch cyfiawnder naturiol a thegwch gweithdrefnol. Mae'r mwyafrif helaeth o'r gofynion yn y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion yn dal i fod yn briodol a rhaid parhau i'w bodloni. Nid ydym yn cynnig dileu unrhyw rai o ddyletswyddau clerco apelau derbyn. Mae clercod yn cyflawni rôl allweddol o ran gwrandawiadau apêl, wrth roi cyngor ar y gyfraith derbyniadau yn ogystal â chadw cofnod cywir o'r trafodion a sicrhau bod y gwrandawriad apêl yn deg. Rhaid bod gan glercod ddealltwriaeth dda o'r gyfraith ar dderbyniadau a rhaid eu bod wedi cael hyfforddiant priodol sy'n cynnwys cyfraith cydraddoldeb. Mae hyn yr un mor gymwys i wrandawiadau apêl a gynhelir o bell, neu a benderfynir ar sail ysgrifenedig yn unig.

Lle na all apêl gael ei chynnal yn bersonol, rhaid i'r panel apelau gymryd camau i sicrhau bod pawb dan sylw yn gallu cyflwyno eu hachosion yn llawn yn rhithwir neu'n ysgrifenedig, a chael ei fodloni y gall yr apêl gael ei phenderfynu mewn ffordd deg a thryloyw. Nod y diwygiad i'r Rheoliadau hyn yw ceisio diogelu buddiannau rhieni a phlant a phobl ifanc drwy sicrhau bod apelau derbyn ysgolion yn cael eu gweinyddu yn y ffordd fwyaf teg a chyfartal posibl.

Caiff y canllawiau anstatudol diwygiedig eu cyhoeddi ochr yn ochr â Rheoliadau 2021 sy'n nodi'n glir lle mae'n rhaid cydymffurfio â'r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion, yn ogystal ag atgoffa paneli apêl o'u dyletswyddau i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

## 2. Eglurwch sut mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant.

Mae gan unrhyw riant (heblaw riant y mae ei blentyn wedi'i wahardd yn barhaol o ddwy ysgol) y gwrthodir rhoi lle i'w blentyn mewn ysgol, neu berson ifanc y gwrthodir rhoi lle iddo mewn chweched dosbarth, hawl statudol i apelio i banel apelau annibynnol (nid yw'r hawl hon i apelio yn cynnwys ceisiadau addysg feithrin).

Hefyd gall rhieni neu bobl ifanc, sydd wedi cael cynnig wedi'i dynnu'n ôl, apelio. Bydd y newidiadau dros dro yn cael eu croesawu gan rieni y mae'n rhaid iddynt barhau i gael yr hawl i apelio os na fyddant yn hapus â'r ysgol sydd wedi'i chynnig iddynt. Mae mesurau diogelu wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau er mwyn sicrhau bod apelwyr yn parhau i gael digon o amser a rhybudd i apelio, ac y bydd eu hapelau yn parhau i gael eu gwrando'n deg, cyn gynted â phosibl o dan yr amgylchiadau, ac yn unol â gofynion cyfiawnder naturiol.

Erthygl CCUHP	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau negyddol?
Erthygl 12: parchu barn y plentyn	<p>Bydd y newidiadau dros dro yn sicrhau bod modd cynnal apêl ac y gellir ystyried barn y plentyn/person ifanc.</p> <p>Lle na all apeliadau ddigwydd yn gorfforol oherwydd Coronafeirws, mae effaith negyddol bosibl ar blant a phobl ifanc na allant (naill ai nhw eu hunain neu eu rhieni) fod yn bresennol yn eu panel apelau yn rhithwir am eu bod wedi'u hallgáu'n ddigidol.</p> <p>Mae effaith gadarnhaol bosibl os gadewir i apelwyr barhau i</p>	<p>Nododd y Fframwaith Cynhwysiant Digidol, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2010, y bobl hynny a oedd fwyaf tebygol o fod wedi'u hallgáu'n ddigidol.</p>	<p>Darparu ar gyfer cynnal y gwrandawriad yn seiliedig ar dystiolaeth ysgrifenedig gan yr apelydd. Anogir Clerc y Panel Apelau i ymgysylltu â'r apelwyr cyn y gwrandawriad er mwyn deall eu gofynion a sicrhau eu bod yn gallu chwarae rhan mor lawn â phosibl.</p> <p>Noda'r Cod Apelau y gall rhieni gael eu cynrychioli gan gyfaill neu gynghorydd i siarad ar eu rhan.</p> <p>Ceidw rhieni yr hawl i gwyno am achos o</p>

	<p>ydddangos yn eu gwrandawriad, na fydd yn bosibl fel arall efallai oherwydd oblygiadau ymarferol neu fesurau sydd yn eu lle i gyfyngu ar ledaeniad y coronafeirws. Mae hyn yn galluogi rhieni i gyflwyno tystiolaeth i gefnogi eu hachos, ac yn sicrhau bod buddiannau'r plentyn gael eu hystyried.</p>		<p>gamweinyddu gan y panel apelau.</p>
<p>Erthygl 28: yr hawl i gael addysg</p>	<p>Mae'r system apelau derbyn i ysgolion yn sicrhau proses apelio deg. Mae paneli apelau derbyn yn chwarae rôl hanfodol yn y gwaith o sicrhau cydbwysedd rhwng hawl y rhieni i gael gwrandawriad llawn a theg a diogelu ysgolion rhag derbyn cynifer o blant na ellir cynnig addysg effeithlon iddynt na gwneud defnydd effeithlon o adnoddau.</p> <p>Rhaid i baneli apelau ystyried dyletswydd gyffredinol awdurdod derbyn i gydymffurfio â dewis rhieni.</p>	<p>Ein nod yw rhoi cymaint o hyblygrwydd â phosibl i awdurdodau derbyn reoli apelau mewn ffordd sy'n gweddu i amgylchiadau lleol orau, gan sicrhau hefyd bod rhieni sy'n apelio yn erbyn penderfyniad derbyn eleni yn cael eu cefnogi ac nad yw'r mesurau sydd ar waith i ddiogelu iechyd y cyhoedd yn eu rhoi dan anfantais. Mae sicrhau bod teuluoedd yn parhau i gael y cyfle i apelio yn erbyn penderfyniadau ynghylch ble y dylai plant fynychu'r ysgol yn cyfrannu at Gymru fwy cyfartal. Mae sicrhau proses deg ar gyfer apelau</p>	<p>Bydd y rheoliadau newydd yn llacio gofynion presennol ond byddant yn cynnal rhwymedigaethau ynghylch cyfiawnder naturiol a thegwch gweithdrefnol. Nid ydym yn cynnig dileu unrhyw rai o ddyletswyddau clericio apelau derbyn. Mae clercod yn cyflawni rôl allweddol o ran gwrandawriadau apêl, wrth roi cyngor ar y gyfraith derbyniadau yn ogystal â chadw cofnod cywir o'r trafodion a sicrhau bod y gwrandawriad apêl yn deg.</p> <p>Mae awdurdodau derbyn wedi hen arfer â deall anghenion</p>

		<p>derbyn ar yr adeg hon yn cyfrannu at hawliau plant.</p> <p>Nod y newidiadau dros dro yw sicrhau y gall apelau fynd rhagddynt ac y gall plant gael lle mewn ysgol cyn gynted â phosibl. Ni fyddai gohirio pob apêl yn deg i rieni na phlant y gallai fod angen iddynt ddechrau mewn un ysgol ac yna symud i ysgol arall os caiff eu hapêl ei chadarnhau, gan darfu ar eu haddysg.</p>	<p>teuluoedd yn yr ardal, a'u diwallu.</p>
--	--	---	--